| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | 21 Mai 2026 |
| **TEITL YR EITEM** | Adroddiadau Archwilio Cymru |
| **AMCAN** | Rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar adroddiad(au) sydd wedi eu cyhoeddi yn ddiweddar gan Archwilio Cymru –<br>• Y Blociau Adeiladu? Cynllunio Cyfalaf mewn Cynghorau yng Nghymru<br>• Anghenion Dysgu Ychwanegol – Ydy cyrff cyhoeddus yn gwybod a yw'r system yn gweithio? |
| **ARGYMHELLIAD** | Gofynnir i Aelodau dderbyn yr adroddiad. |
| **AWDUR** | Lora Williams , Archwilydd Arweiniol, Archwilio Cymru<br><br>Dewi W. Jones, Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor |

**1. CEFNDIR**

1.1. Mae gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio swyddogaeth i adolygu ac asesu trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol, rheoli perfformiad a llywodraethu corfforaethol y Cyngor ac fel rhan o'r swyddogaeth hon mae disgwyliad i ystyried adroddiadau cyrff adolygu allanol megis Archwilio Cymru, Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).

1.2. Yn ogystal ag ystyried adroddiadau yn ymarferol, mae disgwyl i bwyllgorau sicrhau eu hunain bod trefniadau ar waith i fonitro a gwerthuso cynnydd yn erbyn unrhyw argymhellion a geir ynddynt.

**1.3.** Mae copi o adroddiad cenedlaethol a gyhoeddwyd gan Archwilio Cymru ar **'Y Blociau Adeiladu? Cynllunio Cyfalaf mewn Cynghorau yng Nghymru'** wedi ei gynnwys fel **Atodiad 1**. Ceir dogfen ymateb sefydliadol yn **Atodiad 2** sy'n amlinellu'r hyn yr ydym fel Cyngor yn bwriadu ei wneud i ymateb i'r argymhellion perthnasol o fewn yr adroddiad. Bydd **Dewi Morgan, Pennaeth Cyllid** yn mynychu'r cyfarfod i ymhelaethu ar yr ymateb, gosod cyd-destun ac ymateb i unrhyw gwestiynau os oes angen**.**

1.4. Yn ogystal, mae copi o adroddiad cenedlaethol a gyhoeddwyd gan Archwilio Cymru ar **'Anghenion Dysgu Ychwanegol – Ydy cyrff cyhoeddus yn gwybod a yw'r system yn gweithio?'** wedi ei gynnwys er gwybodaeth fel **Atodiad 3.** Er nad oes argymhellion penodol i'r Cyngor yn yr adroddiad mae nifer o'r argymhellion i Lywodraeth Cymru yn nodi'n glir y bydd angen i awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill gymryd rhan weithredol i sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu'n llwyddiannus.